Hawdd ei Ddeall

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Adolygiad Buddsoddi - Rhan 2

## Gwneud eich cais




Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gyngor Celfyddydau Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Adolygiad Buddsoddi 2023 Canllaw i Gyrff - Rhan 2**'.

**Rhagfyr 2022**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod angen help i'w darllen. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 29**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:

**Gwefan:** arts.wales/cy

**Ffôn:** 03301 242733

**E-bost:** investmentreview@arts.wales

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei deall yma, cliciwch yma.

# Cynnwys

**Tudalen**


**Gwneud eich cais........................................................................ 4**

**Pwy sydd yn gallu gwneud cais............................................. 7**

**Rhagor o wybodaeth am gwestiynau'r cais.................... 10**

Beth rydyn ni ei angen o'ch cynllun busnes............... 18

Beth rydyn ni angen ei wybod am eich llidebau....... 18

**Sut fyddwn ni yn asesu eich cais......................................... 20**

**Edrych ar eich corff.................................................................. 24**


**Beth rydyn ni angen gennych chi ........................................ 25**

**Sut rydyn ni'n defnyddio eich gwybodaeth.................... 27**

**Manylion Cyswllt...................................................................... 28**

**Geiriau Anodd........................................................................... 29**

# Gwneud eich cais




Mae'r canllaw yma i'ch helpu chi gyda'ch cais **Adolygiad Buddsoddi**.



Fe fydd y canllaw yma yn dweud wrthych chi os ydy eich corff yn gallu gwneud cais am arian Adolygiad Buddsoddi.




Mae canllaw arall i fynd gyda hwn. Ei enw ydy **Adolygiad Buddsoddi Rhan 1: Canllaw i gyrff.** Darllenwch y ddogfen hon yn gyntaf.

**Mae 6 cam i wneud cais am arian Adolygiad Buddsoddi:**

1. Cofrestrwch am gyfrif ar-lein ar eich porth. Rydych chi'n gallu gwneud hyn drwy glicio yma: [portal.arts.wales](portal.arts.wales)

   Neu mewngofnodwch i'ch cyfrif os oes gennych chi un.

   Mae'n gallu cymryd 5 diwrnod i sefydlu ar ein porth.

   Os ydych chi ar ein porth yn barod, gwnewch yn siŵr bod eich holl fanylion yn gywir.







2. Ewch i'r adran Grantiau a dechreuwch wneud cais.



3. Llanwch yr wybodaeth am eich corff.



4. Atebwch y cwestiynau am eich gweithgareddau yn y dyfodol. Neu anfonwch fideo neu ffeil sain inni. Mae rhagor o wybodaeth am hyn yma: arts.wales/cy/sut-i-gyflwyno-cais-fideo-sain




5. Anfonwch gopi inni o'ch **cynllun busnes** am y 3 blynedd nesaf. Efallai bod rhai cyrff yn galw hyn yn rhywbeth arall. Er enghraifft, **cynllun strategol** neu **gynllun gweithrediadol.** Fe ddylai ddweud beth ydy eich nodau, sut fyddwch chi yn eu cyflawni nhw ac erbyn pryd.




6. Anfonwch gopi o'ch cyllidebau inni am y 3 blynedd nesaf. Mae hwn yn gynllun sydd yn dangos sut rydych chi'n bwriadu cael a gwario arian.

   Fe fydd angen i chi lenwi ein templed ar gyfer hyn.




7. Rydych callu cynnwys hyd at **3 gweddolen** i gefnogi eich atebion. Er enghraifft, dolen i waith diweddar rydych chi wedi ei wneud neu adolygiad.



Os ydych chi'n cael unrhyw broblemau gyda gwneud cais, cysylltwch gyda ni: grants@arts.wales




Mae angen i chi wneud cais am yr arian yma erbyn **12pm hanner dydd ar 31 Mawrth 2023**.

# Pwy sydd yn gallu gwneud cais

Mae eich corff yn gallu gwneud cais os:



- Rydych chi yn gorff neu yn rhan o grŵp o gyrff .



- Wedi eich lleoli yng Nghymru neu mae gennych chi le yng Nghymru.

**Rhaid i'ch corff fod yn:**



- Cwmni cyfyngedig gan warant
- Elusen cofrestredig
- Corff ymgorfforedig elusennol (CIO)
- Cwmni buddiant cymuned (CIC)
- Rhan o awdurdod lleol - adran sydd â rhaglen gelfyddydol gyhoeddus fel canolfan neu leoliad celfyddydau
- Rhan o brifysgol - adran sydd â rhaglen gelfyddydol gyhoeddus fel canolfan neu leoliad celfyddydau

**Rhaid i'ch corff gael:**



- **Cyfansoddiad ysgrifenedig. Neu memorandwm erthyglau cymdeithasu**. Mae'r rhain yn ddogfennau sy'n esbonio'r hyn yr ydych wedi'ch sefydlu i'w wneud. Mae angen iddynt ddangos eich bod yn gwneud gwaith yn y celfyddydau.



- **Ymddiriedolwyr neu gyfarwyddwyr**. Neu mae gan rai grwpiau fwrdd ymgynghorol neu grŵp llywio yn lle hynny.




- **Gwybodaeth ariannol.** SDyma arian rydych chi'n ei wneud neu'n ei wario. Siaradwch â ni os ydych wedi bod yn rhedeg am lai na 2 flynedd.



- **Profiad** o ddarparu llawer o waith yn y celfyddydau.

## Siaradwch â  Swyddog Celfyddydau



Mae'n well cysylltu gyda ni cyn gwneud cais, Mae'n gallu eich helpu chi i benderfynu os ydych chi am wneud cais.





Fe fydd angen i chi siarad gyda ni cyn **3 Mawrth 2023** felly cysylltwch gyda ni mor fuan ag y gallwch. Gwiriwch **dudalen 28** am fanylion cyswllt.

## Cefnogaeth



Rydyn ni'n gallu eich cefnogi gyda'ch cais os ydych chi angen hynny. Ond dydyn ni ddim yn gallu rhoi cyngot ar beth i'w ddweud yn y cais.




Rydyn ni'n gallu rhoi cyngor i chi am wneud cais mewn ffyrdd eraill, Er enghraifft ar fideo neu sain.





Mae rhagor o wybodaeth am wneud cais mewn ffyrdd gwahanol ar gael yma: [arts.wales/cy/sut-i-gyflwyno-cais-fideo-sain](arts.wales/cy/sut-i-gyflwyno-cais-fideo-sain)

# Rhagor o wybodaeth am gwestiynau'r cais



1. Fe fyddwn ni'n gofyn i chi am rhywfaint o wybodaeth sylfaenol am eich corff. Er enghraifft manylion cyswllt a thicio blychau i ddewis lle rydych chi'n gweithio. A'ch cyllid dros y 3 blynedd diwethaf.




2. Fe fyddwn ni'n gofyn i chi am eich nodau. A beth mae eich corff yn ceisio ei gyflawni.




3. Fe fyddwn ni yn gofyn i chi sut mae eich corff yn ateb ein 6 egwyddor. Mae'r rhain yn cael eu hegluro yn y prif ganllaw ar **tudalen 8 i dudalen 13**.




Fe fydd angen i chi ddangos beth rydych chi eisiau ei wneud i gyflawni **pob un** egwyddor. A'r gwaith fyddwch chi yn ei wneud yn y 3 blynedd nesaf i wneud i hynny ddigwydd.



Fe fyddwn ni hefyd yn gofyn i chi am y gwaith rydych chi wedi ei wneud yn barod sydd yn helpu i ateb pob egwyddor.




Mae hwn yn rhan pwysig iawn o’r cais.



Rydych chi’n gallu ysgrifennu manyllion a chyfeirio at eich **cynllun busnes**, cyllidebau a dolenni we i’ch helpu i ateb y cwestiynau yma.



Gwnewch yn siŵr eich bod yn glir am pa ran rydych chi’n cyfeirio ato. Er enghraifft, rydych chi’n gallu enwi rhif tudalen a pha mor bell i lawr y dudalen y dylen ni edrych.


## Rhai enghreifftiau o wybodaeth rydyn ni ei angen ar gyfer pob un o’r 6 egwyddor



### 1. Creadigrwydd

Pan rydych chi’n ateb y cwestiwn yma dywedwch wrthyn ni am:

- Eich gweledigaeth.
- Sut mae’r gwaith rydych chi’n ei wneud yn cynnwys rhai grwpiau o bobl.
- Sut rydych chi’n trin y bobl rydych chi’n gweithio gyda nhw yn dda.
- Sut rydych chi’n deall eich cyulleidfaoedd.
- Sut rydych chi’n gweithio gydag eraill.
- Sut rydych chi’n gallu gweithio mewn lleoedd sydd heb gelfyddydau fel arfer, fel ysbytai.
- Sut rydych chi’n gadael i bobl wybod am eich gwaith.




Bydd y cwestiwn yn gofyn i chi: pa **ganlyniadau** yr ydych yn anelu at eu cyflawni sy’n bwysig i greadigrwydd. Mae **canlyniadau** yn golygu’r ffordd y mae pethau’n troi allan oherwydd eich gwaith.



A’ch **allbynnau** ar gyfer y 3 blynedd. **Allbynnau** yw pethau rydych chi’n eu gwneud i wneud i bethau droi allan yn wahanol.




Rydyn ni hefyd eisiau i chi siarad am beth rydych chi wedi ei wneud yn barod sydd yn bwysig i greadigrwydd. Mae hyn yn cael ei alw yn **dystiolaeth** neu **brawf**. Rydych chi'n gallu siarad am eich **cynllun busnes** neu rhoi dolenni we yn eich atebion.



## 2. Ehangu ymgysylltiad

Pan rydych chi'n ateb y cwestiynau dywedwch wrthyn ni am:

- Sut rydych chi'n gweithio gyda grwpiau sydd gyda llai o gyfle i gymryd rhan yn y celfyddydau.
- Sut rydych chi'n deall y cymunedau rydych chi'n gweithio gyda nhw a sut maen nhw'n cael llais yn beth rydych chi'n ei wneud,
- Sut rydych chi'n cefnogi anghenion pobl o grwpiau **amrywiol**.



Mae **amrywiol** yn meddwl nad ydy pobl i gyd yr un fath. Er enghraifft mae pobl yn dod o wahanol gefndiroedd, mae ganddyn nhw anghenion gwahanol ac maen nhw'n gwneud dewisiadau gwahanol am sut i fyw eu bywydau.

- Sut rydych chi'n gwneud yn siŵr bod beth rydych chi'n ei wneud yn beth da i bobl o wahanol hil, gwahanol oed, pobl heb lawer o arian, pobl anabl, **pobl niwroamrywiol** a phobl Fyddar



**Pobl niwroamrywiol** ydy pobl y mae eu meddyliau yn gweithio mewn ffyrdd gwahanol.



Fe fydd y cwestiynau yn gofyn i chi am **ganlyniadau, allbynnau** a **thystiolaeth**.



## 3. Yr iaith Gymraeg

Pan rydych chi'n ateb y cwestiwn yma, dywedwch wrthyn ni am:

- Eich cynlluniau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn eich gwaith.
- Sut rydych chi'n cefnogi'r bobl rydych chi'n gweithio gyda nhw i siarad Cymraeg.
- Sut mae eich gwaith yn dathlu bywyd Cymraeg.
- Sut mae eich corff yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg.
- Sut rydych chi'n gweithio gydag eraill i hyrwyddo'r Gymraeg.
- Sut rydych chi'n defnyddio Cynnig Cymraeg i'ch helpu chi. comisiynyddygymraeg.cymru/busnesau-ac-elusennau/cynnig-cymraeg




Fe fydd y cwestiynau yn gofyn i chi am **ganlyniadau**, **allbynnau** a **thystiolaeth.**



## 4. Cyfianwder hinsawdd

Pan rydych chi'n ateb y cwestiwn yma, dywedwch wrthyn ni am.

- Pethau rydych chi'n ei wneud i ofalu am y blaned
- Pethau mae eich corff yn ei wneud i ddod yn **Carbon Net Sero.**



**Carbon Net Sero** ydy lleihau'r carbon mae eich corff yn ei gynhyrchu i helpu i amddiffyn yr amgylchedd. Mae carbon yn sylwedd sydd yn cael ei ollwng pan rydyn ni'n gwneud pethau fel gwneud ynni. Mae'n niweidiol i'r blaned.

- Sut rydych chi'n ailddefnyddio ac yn ailgylchu pethau.
- Sut mae eich gwaith yn helpu pobl i feddwl am sut maen nhw'n gallu gofalu am ein planed.




Fe fydd y cwestiynau yn gofyn i chi am **ganlyniadau**, **allbynnau** a **thystiolaeth**.



## 5. Metihrin talent


Pan rydych chi’n ateb y cwestiwn yma, dywedwch wrthyn ni am:

- Y pethau mae eich corff yn eu gwneud i helpu’r bobl rydych chi’n gweithio gyda nhw i ddysgu.
- Sut mae eich corff yn dysgu oddi wrth y gwaith mae’n ei wneud.
- Beth rydych chi’n ei wneud i helpu pobl sydd eisiau gweithio yn y celfyddydau.
- Sut rydych chi’n gweithio gyda phobl **amrywiol** ac yn eu croesawu nhw.
- Sut rydych chi’n trin ac yn talu pobl yn deg ac yn gwneud yn siŵr eu bod yn teimlo’n dda.




Fe fydd y cwestiynau yn gofyn i chi am **ganlyniadau**, **allbynnau** a **thystiolaeth**.

## 6. Trawsnewid



Pan rydych chi'n ateb y cwestiwn yma, dywedwch wrthyn ni am:

- Beth rydych chi'n ei wneud i wneud yn siŵr bod eich corff yn cael ei redeg yn dda.
- Sut mae eich corff yn gwrando ar bobl. Ac yn gwneud yn siŵr bod pob llais yn cael ei glywed.
- Pwy sydd yn gwneud penderfyniadau a sut mae'r bobl hynny yn amrywiol ac yn rhan o'r gymuned.
- Sut rydych chi'n gweithio gydag eraill i wneud pethau gwell.
- Sut fyddwch chi'n rhoi cynnig ar ffyrdd gwahanol i wneud pethau os ydyn nhw'n well.
- Sut rydych chi'n agored am beth rydych chi eisiau ei wneud a sut mae pethau'n mynd.





Fe fydd y cwestiynau yn gofyn i chi am **ganlyniadau**, **allbynnau** a **thystiolaeth**.

# Beth rydyn ni ei angen o’ch cynllun busnes



Fe ddylai eich cynllun busnes ddweud wrthyn ni beth rydych chi eisiau ei wneud yn **2024/25, 2025/26, 2026/27**.



Dylai fod yn ddogfen a ddefnyddiwch i wneud penderfyniadau ac y gallwch ei newid pan fyddwch yn gwybod mwy o bethau.




Fe fydd angen i chi uwchlwytho hwn.

# Beth rydyn ni angen ei wybod am eich cyllidebau

Rhowch eich cyllidebau inni am y blynyddoedd treth:




- 2023 i 2024
- 2024 i 2025
- 2025 i 2026
- a 2026 i 2027



Bydd yn rhaid ichi gynnwys y cyllid yr ydych yn ei ofyn gennym ni fel cyllideb ar wahân.




Gwnewch yn siŵr bod y gweithgareddau yn eich **cynllun busnes** yr un fath ag sydd yn eich cyllidebau.



Dangoswch yn glir inni sut rydych chi wedi gweithio allan eich cyllidebau.




Esboniwch unrhyw wahaniaethau yn y cyllidebau rhwng blynyddoedd.




Rydych chi hefyd yn gallu rhoi dolenni inni i hyd at 3 gwefan sydd yn dangos enghreifftiau o'ch gwaith os ydych chi eisiau.

# Sut fyddwn ni yn asesu eich cais

Fe fydd 4 cam i asesu ceisiadau:



**Cam 1** – Fe fydd rhywun o'r Cyngor Celfyddydau yn edrych ar sut rydych chi wedi ateb y cwestiynau yn eich cais.



**Cam 2** – Fe fydd grŵp yn edrych ar sut rydych chi wedi ateb y cwestiynau yn eich cais.



**Cam 3** – Fe fydd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn edrych ar y ceisiadau. Fe fyddan nhw hefyd yn meddwl am y ffactorau cydbwyso. Rydym wedi esbonio'r rhain yn rhan 1 o'r ddogfen ar d**udalen 15 i dudalen 17**.



**Cam 4** – Fe fydd y Cyngor yn cynnal adolygiad ac fe fydd penderfyniad yn cael ei wneud.




Yna fe fyddwn ni yn dweud wrth bobl am ein penderfyniad. Fe fydd hyn cyn diwedd **Medi 2023**.



Fe fyddwn ni yn trefnu i'ch cyfarfod chi os ydych chi heb fod yn llwyddiannus. Efallai y byddwn ni yn gallu eich cefnogi mewn ffyrdd eraill.




Fe fydd gennych chi 21 diwrnod i **apelio** os ydych ch'n anghytuno gyda'n penderfyniad.

> Mae **apêl** yn ffordd ffurfiol o ofyn i benderfyniad gael ei ystyried oherwydd eich bod am iddo gael ei newid.





Os ydych chi'n llwyddiannus fe fyddwn ni'n dweud wrthych chi am y cyllid erbyn **Rhagfyr 2023**.



Ac fe fyddwn ni yn siarad gyda chi am sut rydyn ni'n gallu eich cefnogi chi.





Yna fe fyddwn ni yn gwneud cytundeb cyllido gyda chi. Fe fydd hyn yn dangos y nodau mae angen i chi eu cyflawni.




Fe fydd angen i chi ddangos inni sut rydych chi'n ateb y nodau yma.



Fe fydd angen i chi gyhoeddi sut rydych chi'n cyflawni eich nodau 2 waith y flwyddyn fel bod pobl yn gallu gweld. Mae'r rhain yn cael eu galw yn dargedau.




Mae hyn yn gallu bod ar eich gwefan. Neu mewn adroddiad.




Fe fydd y cytundeb cyllido yn cael ei adolygu bob blwyddyn.



Fe fydd angen i chi gyfarfod gyda ni i wneud hyn. Rydyn ni'n gallu stopio eich cyllid os nad ydych chi yn cwrdd â'ch targedau.



Pan rydyn ni yn 'cysylltu' ym mlwyddyn 2, fe fyddwn ni yn penderfynu os ydyn ni'n gallu rhoi arian i chi am hyd at 3 blynedd arall.



Rydyn ni hefyd eisiau siarad am sut mae'r arian wedi gwneud gwahaniaeth i'r celfyddydau.

# Edrych ar eich corff



Fe fydd angen inni edrych ar y pethau yma yn ystod yr amser rydych chi'n cael arian gennym ni:

- Cyllideb Flynyddol
- Cynllun Busnes
- Cyfrifon
- Diweddariad ariannol bob 3 mis
- Gwybodaeth arolwg bob 6 mis
- Tystiolaeth eich bod wedi cyhoeddi adroddiad o'ch cynnydd bob 6 mis. Er enghraifft , dolen gwefan.

## Gwneud apêl




Os nad ydych chi'n cael arian gennym ni ac os ydych chi yn anghytuno gyda'n penderfyniad, rydych chi'n gallu **apelio**.





Mae gwybodaeth am hyn ar gael yma: arts.wales/cy/adolygiad-buddsoddi

Rydych chi hefyd yn gallu darganfod sut i wneud cwyn drwy glicio yma: arts.wales/cy/resources/complaints-procedure

# Beth rydyn ni angen gennych chi


Dyma restr o'r holl bethau fyddwn ni eu hangen gennych chi fel rhan o'r cais cyllido:




- Dogfen wedi'i llofnodi mwyaf diweddar. Os ydy eich dogfennau wedi eu diweddaru ar ein porth does dim angen i chi eu rhoi inni eto.




- Yr holl wybodaeth sylfaenol rydyn ni wedi gofyn amdano ar y porth.



- Eich ymatebion i gwestiynau'r **Adolygiad Buddsoddi** ar y porth. Mae hyn yn gallu cael ei wneud mewn ysgrifen neu ar fideo neu sain.




- Eich cynllun **busnes cefnogi**.




- Hyd at 3 dolen i'r gwefannau sydd gyda gwybodaeth gefnogi.



- Eich cyllidebau am y blynyddoedd treth:

  2023 i 2024

  2024 i 2025

  2025 i 2026

  a 2026 i 2027

Fe fydd hyn yn cael ei lenwi ar ein templed yma: arts.wales/cy/adolygiad-buddsoddi

# Sut rydyn ni’n defnyddio eich gwybodaeth




Rydyn ni’n rhannu gwybodaeth am ein penderfyniadau cyllido ar ein gwefan.




Ond fyddwn ni ddim yn rhannu unrhyw wybodaeth bersonol.




Oherwydd deddf o’r enw Deddf Rhyddid Gwybodaeth efallai bydd rhaid inni roi rhywfaint o fanylion eich cais i aelodau’r cyhoedd. Os ydyn nhw’n gofyn amdanyn nhw.



Fydd hyn ddim yn digwydd yn ystod y broses **asesu**. Na’r broses **apelio**.

Mae **asesu** yn ffordd o ddarganfod a oes angen cymorth a chefnogaeth ar rywun.




Mae rhagor o wybodaeth am ein polisi preifatrwydd yma: arts.wales/cy/polisi-preifatrwydd

# Manylion Cyswllt

**Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau rydych chi'n gallu cysylltu gyda ni yma:**



**E-bost**: grants@arts.wales



**Ffôn**: 03301 242733

Press option 1. Then option 1 again.

**Opening hours:**

9.00am — 5.00pm from Monday to Thursday

9.00am — 4.30pm Friday




**Gwefan**: arts.wales/cy/amdanom-ni/cysylltwch-ni

**Facebook**: Cyngor Celfyddydau Cymru | Arts Council of Wales

**Twitter**: @Arts_Wales_

**Instagram**: celfcymruarts

# Geiriau Anodd

## Amrywiol

Mae amrywiol yn meddwl nad ydy pobl i gyd yr un fath. Er enghraifft mae pobl yn dod o wahanol gefndiroedd, mae ganddyn nhw anghenion gwahanol ac maen nhw'n gwneud dewisiadau gwahanol am sut i fyw eu bywydau.

## Apêl

Mae apêl yn ffordd ffurfiol o ofyn i benderfyniad gael ei ystyried oherwydd eich bod am iddo gael ei newid.

## Asesu

Mae asesu yn ffordd o ddarganfod a oes angen cymorth a chefnogaeth ar rywun.

## Carbon Net Sero

Mae hyn yn meddwl lleihau'r carbon mae eich corff yn ei gynhyrchu i helpu i amddiffyn yr amgylchedd.

## Pobl niwroamrywiol

Pobl niwroamrywiol ydy pobl y mae eu meddyliau yn gweithio mewn ffyrdd gwahanol.